YSGOL GYMRAEG TEILO SANT

POLISI ADDOLI AR Y CYD

Dyddiad Cadarnhau gan y Corff Llywodraethu	
Dyddiad Adolygu (bob tair blynedd, neu yn ôl y galw)	
Dyddiad Adolygu Nesaf	
Arwyddwyd	
Safle	
Dyddiad	

Polisi Addoli ar y Cyd Ysgol Gymraeg Teilo Sant

Yn Ysgol Gymraeg Teilo Sant ein gobaith yn ystod ein sesiynau addoli ar y cyd yw atgyfnerthu a chryfhau ein gweledigaeth ysgol " " a rhoddi cyfleon i bob un ddatblygu yn ysbrydol, yn foesol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Addoli ar y cyd yw lle daw holl aelodau'r ysgol at ei gilydd, boed yn yr un lle neu'n rhithiol, i gyfranogi mewn addoliad. Ein bwriad yw darparu amgylchedd tawel, hapus, saff, gofalus a chefnogol gan roddi cyfle i bawb i gymryd rhan. Mae'n gyfle i ni fel ysgol gael myfyrdod tawel, i ddangos parch at Dduw, at ein gilydd, at gyflawiadau, ymdrech ac ymddygiad sy'n meithrin unigolion â safonau uchel.

Nodau ac amcanion:

- Rhoi cyfleon i blant i addoli a'u dysgu am bwrpas a sut i addoli.
- Rhoi annogaeth i bob plentyn gymryd rhan yn ei ffordd ei hun.
- Annog plant i ymateb i sbardunau amrywiol.
- Rhoi arweiniad i blant er mwyn datblygu'n ysbrydol ac yn foesol.
- Datblygu ethos a gwerthoedd yr ysgol.
- Datblygu a meithrin ysbryd teuluol, cymunedol a rhyngwladol.
- Datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas.
- Galluogi plant i fyfyrio ac archwilio eu credoau eu hunain.
- Meithrin parch at safbwyntiau a chredoau eraill. Seilir yr addoli ar y ffydd Gristnogol ond mae'n bwysig meithrin parch at gredoau eraill.
- Atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.
- Dathlu llwyddiannau.

Dulliau

Bydd yr addoliadau ar y cyd fel arfer yn cael eu harwain gan y pennaeth, aelodau o staff yr ysgol a dosbarthiadau'r ysgol. Byddant hefyd yn cynnwys-

- Cyfraniad unigolion
- Arweiniad gan ddosbarthiadau
- Defnyddio storiau – crefyddol, moesol a thraddodiadol

- Drama
- Gweddiau a myfyrdod
- Cerddoriaeth, caneuon, emynau
- Cyflwyniadau-
- Ymwelwyr e.e. o gapel neu eglwys leol, o elusen..
- Arteffactau
- Sgyrsiau- ffurfiol ac anffurfiol

Cwricwlwm

Yn yr ysgol mae addoli ar y cyd a'r cwricwlwm yn cyd-blethu a rhoddir cyfleon i uno'r ddau gan roi profiadau gwerthfawr wrth addoli sy'n ymestyn i ddatblygiad addysgol y plant. Defnyddir cyflwyniadau, drama, technoleg, cerddoriaeth, llenyddiaeth, celf wrth addoli. Wrth gynllunio'r addoli rhoddir pwyslais hefyd ar faterion sy'n codi o'r newyddion, y calendr Cristnogol, traddodiadau, diwrnodau pwysig, elusennau a dilyn trywydd y plant. Bydd hefyd yn cynnwys dathliad o lwyddiannau amrywiol y plant o ran y cwricwlwm ac ymhellach gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi ac ymdrech a chyflawniad yn cael clod.

Trefniadaeth

Fel ysgol rydym yn disgwyl i bob plentyn fod yn rhan o'r gwasanaeth er hynny gall rhiant ofyn am ganiatad i esgusodi ei plentyn o'r gwasanaeth. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i oruchwylio'r rhai hynny sydd wedi eu hesgusodi. Mae hyn yn cyd-ymffurfio â Deddf Addysg 1944 a Deddf Diwygio Addysg 1988.

Adolygu

Bydd y polisi yma ei adolygu yn ôl yr angen gan y corff llywodraethol.